Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gyfun Llangefni
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7NG

09/12/2025

Annwyl arweinwyr a staff,

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2025

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod ymweliad interim â'r ysgol ar y 26ain a'r 27ain o Dachwedd 2025. Mi wnaethom werthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a staff am eu gwaith hunanwerthuso a gwella, a'u gwaith i wella presenoldeb.
- Siarad â disgyblion a gwrando ar eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.
- Craffu ar sampl o waith disgyblion.
- Craffu ar sampl fach o ddogfennaeth berthnasol.
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu gwaith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn.

**Ffocws yr ymweliad**

**Sut mae'r ysgol wedi cryfhau ei gwaith hunanwerthuso, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliant?**

Ers yr arolygiad craidd, mae'n amlwg bod arweinwyr wedi parhau i addasu a datblygu prosesau i hunanwerthuso eu gwaith a chynllunio ar gyfer gwelliant. Yn ystod yr ymweliad, clywsom sut mae arweinwyr ar bob lefel wedi cael hyfforddiant i wella eu medrau hunanwerthuso fel y caiff ystyriaeth ei rhoi ganddynt i effaith addysgu ar

gyflawniad disgyblion. Mae'n ymddangos eu bod yn ystyried a dadansoddi data yn drylwyr fel rhan o'r gwaith hwn.

Braf oedd deall bod arweinwyr canol yn cael cyfleoedd i arsylwi gwersi. Clywsom am eu gwaith mewn triawdau, ble rhoddir cyfle iddynt arsylwi ei gilydd. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i arsylwi a chraffu ar y cyd gydag aelodau o'r uwch dîm arwain.

Mae'r ysgol wedi adnabod bod angen canolbwyntio ar lai o flaenoriaethau nag yr oedd yn y cynllun gwella adeg yr arolygiad craidd. Mae adrannau'n gweithredu ar y blaenoriaethau hyn er mwyn gyrru gwelliannau ysgol gyfan. Mae gan arweinwyr rolau pendant a chlir wrth weithredu a monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- I ba raddau mae'r holl arweinwyr yn ystyried effaith yr addysgu ar y dysgu wrth gynnal gweithgareddau hunanwerthuso?
- I ba raddau y mae arweinwyr ar bob lefel yn blaenoriaethu a chynllunio i wella agweddau penodol o addysgu?

**Sut mae'r ysgol wedi gwella ei phrosesau presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?**

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n fanwl ar gryfhau prosesau er mwyn gwella presenoldeb disgyblion, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn ystod yr ymweliad, clywsom am ystod eang o strategaethau i wella presenoldeb. Roedd hyn yn cynnwys meithrin ethos ysgol gyfan sy'n seiliedig ar bwysigrwydd presenoldeb a'i fod yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae gan yr ysgol ffocws clir ar adeiladu perthynas gadarnhaol â disgyblion a'u teuluoedd. Nodwyd bod staff yn cydweithio'n agos â nhw er mwyn ceisio deall y rhesymau dros absenoldeb disgyblion ac i chwilio am ffyrdd i'w cefnogi i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae gwaith yr ysgol ar ymlyniad disgyblion wedi bod yn strategaeth allweddol i feithrin a hyrwyddo perthnasoedd da ymysg y disgyblion, y staff a'r rhieni.

Yn ystod yr ymweliad, clywsom gan ddisgyblion eu bod yn deall pwysigrwydd presenoldeb da ac yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth y maent yn ei chael. Er enghraifft, maent yn derbyn tystysgrifau a thalebau mewn gwasanaethau gwobrwyo ac yn cystadlu fel dosbarthiadau cofrestru i hybu presenoldeb da.

Mae presenoldeb disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau am ddim, wedi gwella ers cyfnod yr arolygiad craidd. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i wneud

gwelliannau pellach yn y maes hwn, yn enwedig er mwyn gwella presenoldeb disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a phresenoldeb grwpiau eraill.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut gellir adeiladu ar, a chynnal, y cynnydd a wnaethpwyd ym mhresenoldeb disgyblion er mwyn cau'r bwlch i lefel agosach i bresenoldeb cyn y pandemig?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i'r ysgol gyda'i datblygiadau pellach. Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6604027

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro